# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

**RHIF 134**

**EBRILL 1987**


# SIWSI'N GALW — YN GYMRAEG!

"SIWSI'N GALW......yn y Gymraeg!" Fe fyddai gwrthrych can Meic Stevens ("Siwsi'n galw ar y teliffon..." yw geiriau'r gan i'r anwybodus, Gol.) wrth ei bodd a chyhoeddiad diweddar Telecom Prydeinig yn datgan eu bwriad i sefydlu gwasanaeth ffonio dwyieithog yng Nghaerdydd. Bydd y penderfyniad yma gan gwmni na fu'n enwog yn y gorffennòl am eu hymroddiad i'r iaith yn hwb sylweddol i bawb sy'n ymgyrchu dros gael statws i'r Gymraeg yn y brifddinas.

Deilliodd y cynllun o ganlyniad i gyfarfod rhwng dirprwyaeth o gwmni Telecom ag aelodau o gell Caerdydd o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg, gynhaliwyd fis Medi y llynedd. Ar ol cytuno i ystyried cynllun y Gymdeithas, cafwyd sel bendith Pwyllgor Cynllunio Rhanbarth De Cymru o Telecom a chadarnhawyd y byddai'r cynllun yn weithredol erbyn diwedd mis Mawrth eleni. (Wrth i'r rhifyn hwn fynd i'w wely, deallwn fod y cynllun bellach ar waith. Gol.)

Yn ymarferol yr hyn a olyga'r cynllun yw fod Telecom yn neilltuo dau giosg cyhoeddus yng nghanol Caerdydd ar gyfer galwadau Cymraeg yn unig. Dewiswyd dau giosg sydd wedi'u lleoli ochr yn ochr a dau flwch ffonio arferol, h.y. rhai sy'n derbyn a gyrru galwadau mewn unrhyw iaith. Drwy osod y blychau ochr yn ochr a rhai arferol gellir cymharu'r defnydd a wneir o'r ddau wahanol fath. Gellir defnyddio y ciosg newydd ar gyfer pob math o alwadau - galwadau busnes, preifat, ynghyd a galwadau brys - cyn belled a'u bod trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. NI fydd modd cynnal sgwrs trwy gyfrwng unrhyw iaith arall o'r blychau yma.

Dywedodd Stephan Webb ar ran Cymdeithas yr Iaith fod hwn yn gam pwysig iawn tuag at integreiddio'r Gymraeg yn llwyr i strwythur cymdeithas. "Ry ni'n siomedig wrth gwrs mai dim ond dau giosg yn unig sy'n cael eu neilltuo ar hyn o bryd i wneud galwadau trwy gyfrwng y Gymraeg, ond mae hwn yn gam grymus a phendant sydd llawn mor bwysig a darparu cownter Cymraeg yn y Swyddfa Bost", meddai. "Mae llwydiant Deddf Iaith newydd yn dibynnu i raddau helaeth ar barodrwydd cwmniau masnachol fel Telecom i ganiatau defnydd o'r Gymraeg yn eu maes nhw ac ar ein parodrwydd ni i ddefnyddio'r cyfleusterau gymaint ag y gallwn".

Cadarnhaodd llefarydd ar ran Telecom, mai arbrawf yn unig yw hwn, ac y bydd y cynllun yn cael ei adolygu ymhen tri mis, ddiwedd Mehefin. Os bydd y ffigyrau'n dangos fod yna alw pendant am wasanaeth ffonio trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y cwmni'n barod i ystyried darpariaeth lawnach yn ardal Caerdydd i ddechrau, ac yna ar lefel ehangach o bosib. "Telecom is happy to associate itself with all efforts to preserve the Welsh language, but it's now up to Welsh speakers in the Cardiff area to prove the need for such a service during the next three months".

Ond dyw'r newyddion ddim yn dda i gyd. Yn ol Cyngor y Defnyddwyr, os bydd yr arbrawf yn llwyddiant a Telecom yn cytuno i sefydlogi ac ehangu y cynllun drwy osod blychau ffonio ar gyfer galwadau Cymraeg ym mhob rhan o'r ddinas ochr yn ochr a'r rhai presennol, gallai hyn olygu cynnydd o tua dau y cant ar y bil ffon.

Am y tro fodd bynnag, y newyddion pwysig yw FOD 'na gynllun ffon Cymraeg ar waith yn y brifddinas at wasanaeth Cymry Cymreg yr ardal. Lleolwyd y ddau giosg newydd, sydd wedi'u peintio'n felyn - drws nesa i ddau giosg lliw coch arferol ar Churchill Way, gyferbyn a hen siop Calders. Gobeithiwn gael ymateb y defnyddwyr erbyn y rhifyn nesaf. Yn y cyfamser, cyngor y Dinesydd yw: - rhowch wybod i'ch cyfeillion (ac i Siwsi!) ewch allan, a defnyddiwch y ddau ffon newydd.



## BEIBL CYMRAEG
## William Morgan




CYFLE UNIGRYW

Fel cyfraniad tuag at ddathliadau pedwarcanmlwyddiant cyhoeddi Beibl yr Esgob William Morgan mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn bwriadu argraffu nifer cyfyngedig o gopiau ffacsimili o'r Beibl hwnnw. Am ragor o fanylion gweler tudalen 2. Ond os hoffech archebu copi dylid ysgrifennu at Y Llyfrgellydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Dyfed, SY23 3BU.

CWRS GWAU TAPINAU

Mewn ymateb i'r diddordeb cynyddol a fu mewn crefftau traddodiadol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y mae Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan wedi trefnu cyfres o gyrsiau ymarferol ar wahanol grefftau. Cynhelir y cyntaf ar wau tapinau yn yr Amgueddfa ar ddydd Sadwrn, 11 Ebrill am 10.00 a.m. Dechreuir gydag elfennau'r grefft ac ni ofynnir am unrhyw brofiad blaenorol o wau. Darperir ar gyfer myfyrwyr mwy profiadol hefyd a thelir sylw arbennig i gynllunio tapinau. Bydd y diwrnod o dan ofal Mrs. Margaret Hansford, Cadeirydd Gwehyddion Morgannwg. Bydd gwlan wedi ei liwio ar gael am bris rhesymol a darperir fframiau pwrpasol. Codir tal o £5.00 am y Cwrs.

Am fanylion pellach am y Cwrs a'r rhai eraill yn y gyfres cysyllter a John Williams-Davies, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd. CF5 6XB. Ffon: Caerdydd 569441

Dymunwn estyn ein cydymdeimlad i Mair a Gerallt Evans ar farwolaeth ei mam fore Sul, Mawrth 15fed. Bu Mair a Gerallt yn fawr eu gofal ohoni a chofiwn am dad Mair yn ei gartref yn Nhrelertet, Sir Benfro yn ei golled. Fe fydd ei hwyresau, Catrin, Siwan a Betsan a'i gorwyrion Mathew Rhys a Hanna Ffur hefyd yn teimlo ei cholled.

Ymadroddion newydd

Nos Fercher, Chwefror 25ain, cynhaliwyd cyfarfod cystadleuol yng Nghapel Salem, Canton. Cafwyd cystadlu brwd ar ganu ac adrodd a choginio 'quiche', a phawb, yn ennillwyr ynghyd a'r rhai gafodd gam, yn mwynhau'r ornest. Hen hanes yw hynny erbyn hyn ond yn ystod y noson fe gafwyd, yn sgil un o'r cystadleuthau llenyddol, wedd newydd iawn ar ymadroddion yr oes o'r blaen. Gofynnwyd i'r cystadleuwyr gyfansoddi diarhebion cyfoes, newydd ac, yn ôl y beirniad Llên, Mallt Anderson, a fu'n pwyso a mesur dwsinau o gynigion, llwyddwyd i gynhyrchu ambell i ddihareb eithaf ysbrydoledig - a lot o sbort! Dyma i chi rai ymdrechion:-

Deuparth gwaith, ei gael.
Cerdyn heddiw, cardod 'fory.
Dyfal donc all dorri'r morthwyl!
Amau neb, amau pawb.
Dim fferins, dim ffilings.
Cysgu'n sengl, cysgu'n dawel.
Car ei gymydog sy'n gyrru dyn.

Dylid anfon unrhyw ddeunydd ar gyfer rhifyn mis Mai erbyn Ebrill 13eg at:
Y Dinesydd,
47, Hamilton Street,
Canton,
Caerdydd.

Gwasanaeth Dathlu Dydd Gŵyl Dewi ym Methania, Clawdd Coch

Merched y Wawr - Pwyllgor Rhanbarth y De.

Cynhaliwyd Gwasanaeth didwyll iawn noson Dydd Gŵyl Dewi i weddio dros ein cenedl a'i chyflwyno'n ôl i ofal Duw.
Roedd cynrychiolaeth o bron pob Cangen yn y Sir yno a fel pob amser roedd cyfraniadau teilwng ystyrlon o bob Cagnen. Cafwyd ein hysbrydoli gan ein siaradwraig wadd, Mrs. Shan Emlyn - mae'n dweud bod ei theulu'n blino arni'n sôn am y wladfa - nid felly ni a oedd yno y noson honno. Roedd arwyddion tranc yno meddai oedd yn gwneud iddi hi wethfawrogi fwyfwy ein bywyd ni yng Nghymru - fe'n hanogodd ni i gadw at y pethau gorau i sicrhau bywyd a thwf i'n cenedl ar dir Cymru. Ymfalchiai'n bod ni yn yr ardaloedd hyn yn gallu byw bywyd mor naturiol Gymreig.
Roedd hi'n siaradwraig wych. Mae'n deyrnged i Merched y Wawr inni yn y Cwrdd Rhanbarth hwn gael neges mor bwrpasol gan ein cennad bob blwyddyn. Llynedd Mrs. Myra Jenkins, cyn hynny Mrs. Rebecca Powell a'r Parch Ian Roberts. Diolch eleni Shan Emlyn a diolch i Mrs. Rhiannon Williams am ein hysbrydoli i roi tuag at Gronfa Achub y Plant.

BEIBL WILLIAM MORGAN

I ddathlu pedwarcanmlwyddiant cyhoeddi'r Beibl Cymraeg cyntaf mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cyhoeddi ffacsimili o Feibl yr Esgob William Morgan. Bu ffotograffwyr ac argraffwyr y Llyfrgell wrthi am yn agos i ddwy flynedd yn paratoi'r ffacsimili hwn a daw'r gwaith o'r wasg ar 1 Tachwedd eleni.

Yn ôl y Llyfrgellydd:

"Beibl 1588 yw'r llyfr unigol pwysicaf a gyhoeddwyd yn y Gymraeg erioed, a braint inni yw cael defnyddio'r technegau diweddaraf er mwyn ei gyflwyno i'r cyhoedd yn ei ffurf wreiddiol."

Pum cant o gopiau'n unig a argraffwyd o'r gyfrol hardd hon o 1100 o dudalennau ac mae'n sicr y bydd yn drysor i gasglwyr llyfrau.

£60 fydd y pris cyn ei gyhoeddi a £70 wedyn, ond hyd nes y cyhoeddir y Beibl ar 1 Tachwedd bydd y Llyfrgell yn cynnig telerau talu ymlaen llaw yn fisol.

OS AM WERSI PIANO, cysylltwch â Joy Davies, B.Mus.,L.T.C.L.
Ffôn: 752173

Llawenydd inni i gyd yw croesawu Teleri Bevan, Pennaeth Rhaglenni BBC Cymru yn ol i'w gwaith ar ol cyfnod o waeledd.

# BLE MAE'R YSGOL?

ANSICRWYDD YSGOL NEWYDD RADNOR ROAD

Blin iawn gennym orfod cofnodi yn y rhifyn hwn o'r Dinesydd bod y SWYDDFA GYMREIG yn euog o lusgo'u traed wrth roi y caniatad angenrheidiol i Awdurdod Addysg De Morgannwg i agor yr ysgol newydd hir-ddisgwyliedig hon.

Ers blwyddyn bellach fe fu plant a oedd i fod i agor y bumed Ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd yn Radnor Road, yn derbyn eu haddysg yn Ysgol Lansdown o dan ofal Mrs. Cerris Davies. Cawsant addewid pendant gan yr Awdurdod y byddid yn apwyntio Prifathro erbyn y Pasg ac y byddai'r plant yn cael eu symud ymhen y flwyddyn i Ysgol Radnor Road a'r hen adeilad yn Radnor wedi'i adnewyddu.

Nid oes unrhyw Swydd wedi'i hysbysebu a mae'r ansicrwydd a'r diffyg cyflawni addewidion medd yr Awdurdod yn deillio o'r ffaith na all yr Awdurdod Addysg symud ymlaen heb ganiatad y Swyddfa Gymreig.

Mae'r Awdurdod a'r rhieni yn dal i bwyso ar y Swyddfa Gymreig i ddod i benderfyniad boddhaol.

Prifysgol Cymru
Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion

CWRS HYFFORDDI ATHRAWON
(addas ar gyfer y rhai sydd am gymryd dosbarthiadau i oedolion yn yr Hydref)

Bob prynhawn dydd Iau
7 Mai -- 18 Mehefin 1987
4.30 - 6.00 p.m.

Manylion o 22 Park Place
Ffôn 390980

**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

Os am,
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816






AR DDYDD SUL Ebrill 26 cyhoeddir rhifyn cyntaf y papur Sul newydd News on Sunday. Yn ogystal a thorri tir newydd yn nhermau newyddiadurol, un o nodweddion unigryw News on Sunday yw'r ffaith y bydd yn cynnwys atodiad Cymreig.

Eisoes sefydlwyd grwp o gefnogwyr News on Sunday yng Nghaerdydd ac mi fydd gan y papur swyddfa yn y Brifddinas. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i son am y papur ac y trefniadau sydd eisoes ar y gweill. Ond y datblygiad pwysicaf hyd yma oedd penodiad y newyddiadurwr James Stewart, a fu'n aelod o staff y cylchgrawn Rebecca, i fod yn gyfrifol am gynnwys yr atodiad Cymreig a'r cynnwys Cymreig a fydd yn ymddangos yng nghorff y papur.

Y gobaith yw sefydlu grwpiau tebyg trwy Gymru - eisoes sefydlwyd grwpiau yn Glasgow, Glannau Merswy, Manceinion, Newcastle, Sheffield, Bryste, Coventry, Birmingham, Caerlyr a Llundain.

Yng Nghymru bydd gan y grwpiau lleol ran hollbwysig i'w chwarae yn y gwaith o greu'r argraffiad Cymreig a chreu cysylltiad uniongyrchol rhwng News on Sunday a'i ddarllenwyr ledled Cymru. Disgwylir y bydd y grwpiau'n porthi'r papur a syniadau ac eitemau newyddion yn ogystal a chynnig beirniadaeth.

Gorchwyl pwysig arall fydd ceisio sicrhau darllenwyr cyn i'r papur ymddangos drwy son am y papur mewn mannau gwaith ac yn eu cymunedau. Bydd tim News on Sunday yn cynnal cyfarfodydd ledled Cymru yn ystod y misoedd nesaf i drafod y papur gyda darllenwyr a chyfranwyr y dyfodol.

Argreffir News on sunday yn Llundain a Manceinion. Nod y papur fydd adlewyrchu diddordebau a buddiannau pobl ym mhob rhan o wledydd Prydain. Cynhwysir newyddion a gynhyrchir gan ohebwyr yn gweithio o swyddfeydd lleol yn yr argraffiadau arbennig ac ym mhrif gorff y papur.

Mewn taflen ddwyieithog a gynhyrchwyd gan grwp cefnogi News on Sunday yng Nghaerdydd roedd gan Mary Giles hyn i'w ddweud:

"Mae papurau tabloid yn gyfleus, yn ddarllenadwy ac yn rhad. Ond oes raid iddynt hefyd fod yn gomics atgas a hiliol a rhywiaethol, yn llawn o rywa roials, malais a mochyndra, drygs a drygioni?

Bydd News on Sunday yn wahanol: tabloid lliw a newyddion go iawn. Bydd yn meddu ar fywiogrwydd a hiwmor y papurau tabloid gorau, ond bydd yn gryfach ym meysydd materion cyfoes, newyddion rhyngwladol ac ymchwilio manwl. Er ei fod yn cefnogi amcanion a gobeithion pobl gyffredin a'r mudiad llafur, bydd News on Sunday yn parhau'n annibynnol o unrhyw sefydliad neu blaid wleidyddol. Bydd hefyd yn gadarn ei wrthwynebiad i bob math o rywiaeth, hiliaeth a gwahaniaethu annheg yn ei ddeunydd newyddion ac erthyglau, ac fel cyflogydd.

Adlewyrchir diddordebau, pryderon a gobeithion cymunedau cefn gwlad a threfi ledled Cymru yn yr argraffiad Cymreig. Er mai yn Saesneg y bydd y papur, bydd yn ymdrin yn llawn a materion yn ymwneud a'r iaith Gymraeg.

Bydd mwy o straeon 'diddordeb dynol' nag a geir yn y papurau Sul 'safonol'. Cred News on Sunday y gall newyddiaduraeth sy'n ymdrin a phobl wneud syniadau radicalaidd yn fwy dealladwy i gynulleidfa llawer ehangach. Gall newyddiaduraeth o'r fath adlewyrchu hiwmor, dychymyg, dewrder ac ysbryd cydweithredol menywod a dynion cyffredin".

Os hoffech gysyllu a News on Sunday yng Nghaerdydd, ysgrifennwch i'r cyfeiriad isod:

News on Sunday
P.O. Box 322
Caerdydd
CF2 2XA

---

Yn Y Cocatŵ Coch, a gyhoeddir ar 9 Ebrill 1987 gan Wasg y Brifysgol, ceir detholiad o gerddi byr Tseinaeg, yn cynnwys enghreifftiau o waith prif feirdd pob oes hyd at ein dyddiau ni, wedi'u cyfieithu am y tro cyntaf i'r Gymraeg.

Fe'u cyfieithwyd gan Cedric Maby, cyn-gynghorydd Llysgenhadaeth yn Peking (Beijing ballch); bu hefyd yn Chargé d'affaires yno am dymor.

Mae'r cerddi yn adlewyrchu cariad y Tseineaid at eu teuluoedd a'u cyfeillion, ac at natur a chreaduriaid gwyllt, blodau a choed. Gall y sawl nad oes ganddo ddim gwybodaeth am iaith a llenyddiaeth Tseina fwynhau'r cerddi hyn gyda chymorth y rhagymadrodd, nodiadau testunol a bywgraffyddol, y map a'r rhestr o ddyddiadau.

Am gyfweliadau â Cedric Maby, cysyllter yn uniongyrchol ag ef ar (0766) 770279).

NID YW POB MORGAIS YR UN FATH

★ Y GANOLFAN CYNGHORI MORGAIS ★ CYNGOR DIDUEDD YW'R UNIG GYNGOR O WERTH ★

A WYDDECH CHWI
fod Cymdeithasau Adeiladu, y Banciau, a sefydliadau ariannol eraill, yn cystadlu'n galed am y fraint o roi morgais i chwi?
Manteisiwch ar hynny i sicrhau cynllun morgais a allai gynnig i chwi rai o'r canlynol neu'r cyfan ohonynt:

- Graddfa log is na'r arfer
- Taliadau llai yn y blynyddoedd cynnar
- Ad-dalu'r ffi brisio ar ôl trefnu'r morgais
- Hyd at 15% o ostyngiad ar yswiriant cynnwys y tŷ
- Cyfraniad tuag at y treuliau cyfreithiol
- Swm ddi-dreth ar y diwedd yn bosibl
- Dim taliadau trefnu

HUNANGYFLOGEDIG?
A wyddech chwi fod Morgais Pensiwn yn cynnig manteision mawr o ran treth a chyfle gwych i fuddsoddi?

Sterling

NAWR YW'R AMSER!
Ffoniwch y ganolfan nesaf atoch am gyngor a gwybodaeth sydd yn *rhad ac am ddim*.



Aberystwyth (0970) 617647
Abermaw (0341) 281145
Porthmadog (0766) 3765

Byddai'n dda gennyf gael cyngor gennych am y telerau gorau i'm morgais newydd.
Anfonwch at:
**Y Ganolfan Cynghori Morgais, Gwasanaethau Cyllid Sterling, FREEPOST, Heol Portland, Aberystwyth, SY23 2NL.**
Llythrennau breision
Enw .................
Cyfeiriad .................
.................
Cod Post .................

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at: Lynn Jones, 30 Highfields, Llandaf, CF5 2QB. Ffôn: 562816.

Ebrill 6
Merched y Wawr yn cyfarfod yn Festri Capel Minny Street, Cathays am 7.30. "Noson o Holi" - Mererid Morris.

Ebrill 11
Festri Capel Heol y Crwys;
Bore Cerddorol a Stondinau amrywiol
10.00 - 12.00 a.m.
Tocynnau: 50c

Mai 9
Cor Philharmonig Caerdydd
Perfformiad o Requiem (Faure)
gyda
Cerddorfa Siambr Caerdydd
Neuadd Gyngerdd y Brifysgol
Heol Corbett, Parc Cathays
am 7.30

Artistiaid:
Elin ap Robert (soprano)
Jeremy Williams (baritoin)
Kevin Thomas (bass)
Robert Court (organ)

Arweinydd: Alun Guy

Tocynau #3.50 oddiwrth
Margaret Barrett
Gwesty Penylan Caerdydd 496444
neu wrth y drws.

Mai 9
Cynhelir 6ed Cynhadledd Undydd, Uned Ymchwil Ieithyddol Gymraeg, Coleg y Brifysgol Caerdydd, yn y Castell, Sain Ffagan.
Thema: Tafodiaeth Morgannwg a Brycheiniog. Manylion pellach: Caerdydd 874000, est. 5321.

# KYFFIN WILLIAMS R.A.

Amgueddfa Genedlaethol Cymru    14 Mawrth - 2 Mai

Dim ond ychydig nodiadau gan y bydd llawer wedi ei ddweud a'i ysgrifennu cyn i'r Arddangosfa hon fod trosodd. I lawer iawn o bobl hon fydd Arddangosfa'r flwyddyn ac rwy'n sicr y cofir amdani fel un o'r rhai mwyaf o waith Cymro am Gymru.

O'r diwedd dyma gyfle i weld cynrychiolaeth helaeth o waith blynyddoedd lawer wedi eu casglu at ei gilydd. Cyfle felly i gymharu gweithiau cynnar a rhai diweddaraf a sylwi newid mewn lliwiau a thechneg. Techneg yn ei beintiadau olew sydd erbyn hyn yn ddibynnol yn llwyr a'r gyllell palet. Lle bo peintwyr eraill yn defnyddio brws, neu brws a chyllell, y mae Kyffin Williams wedi llwyr ymadael a'r brws am y gyllell ac yn ei weithiau diweddara yn taenu slabiau o baent trwchus, synhwyrol, nwydus. Gwelir fod y lliwiau wedi goleuo gyda'r blynyddoedd, a chynildeb yn amlycach yn ei ddefnydd o liw fel bod rhai tirluniau a morluniau bron yn haniaethol.

Ei dirluniau o Ogledd Cymru sydd wedi apelio'n fawr at y Cymry sydd wedi llwyddo i brynu ei luniau ac y mae John Ormond yn ei nodiadau yn y Catalog yn cynnig ei ddadansoddiad ef o'r apel hon. O'i gartref ar lannau'r Fenai gall yr artist edrych draw dros Eryri a sylwi ar effeithiau tywydd a newidiadau goleuni.

Ond y mae yma hefyd bortreadau nad oes llawer ohonom wedi ei weld o'r blaen. Portreadau wedi eu creu trwy ddefnyddio cyllell balet yn unig ac sydd yn union iawn eu hapel; yn cyfleu cymeriadau yn eglur iawn, a dangos dewrder mawr yn y modd y bu'r artist yn ymdroi at ei waith ar y cynfas. Efallai nad yw'r dyfrliwiau yn llwyddo i'r un graddau a'r peintiadau olew heblaw er enghraifft y portread gwych o Brychan Evans 1968. Beth sydd hefyd yn drawiadol iawn yw'r lluniadau mewn du a gwyn o Ogledd Cymru a'r fferwyr drwy w wneud wneud defnydd o inc a golchiad. Lluniau bywiog sy'n dal naws y lle a theimlad am effeithiau tywydd, gwylltineb a chaledi bywyd yn y mynydd-oedd.

Er iddo fod yn artist sydd wedi gwerthu mor dda y mae rhai yn ymateb yn feirniadol o'i dechneg sydyn ac union-gyrchol a chyllell palet, ac o'i ddefnydd o baent trwchus a phlastrog.

Yn ol Robin Stemp mewn erthygl yn 'The Artist' Ebrill 1987, y mae Kyffin Williams yn medru cellwair am hyn gan ddweud 'Mae'n rhaid i chi fynd i siarad ag 'X' - nawr y mae ef yn wir gasau fy ngwaith". Ond, pwy bynnag yw 'X', pan yn arddangos yn Llundain yn y Thackerey Gallery bob dwy flynedd, y mae'r cwt o bobol yn un hir a'r gweithiau i gyd yn cael eu gwerthu.

Yn anad dim y mae enw Kyffin Williams ynghlwm wrth Gymru ac yn enwedig tirwedd y Gogledd. Bydd y mwyafrif yn medru deall a mwynhau y delweddau y mae'r artist yn eu rhannu a ni a bydd rhai o'r delweddau hyn yn aros yng nghof y llygad yn hir iawn.

Er mor falch yr ydym o weld Arddangosfa fel hon yn cael ei gosod, rhaid taro un nodyn beirniadol sef yr anhegwch a wnaed a nifer o'r lluniau drwy eu dangos ar y balconi sy'n cysylltu dwy ystafell. Fe'i defnyddir yn feunyddiol i ddangos rhai o'r lluniau sydd ym meddiant yr Amgueddfa - ond ni ddylid ei defnyddio i arddangos ar achlysur fel hyn am resymau digon amlwg, ac yn enwedig gan i rai o'r lluniau gorau, ond nid mawr eu maint, gael eu gosod yno.

Wrth ddod allan clywais lais geneth tua deg oed o ysgol yng Ngwent yn dweud wrth ei chyfeillion "I wish I could paint like this". Credaf mai wedi ei chyffwrdd yr oedd hi gan harddwch y lluniau yn gymaint a dyheu am y gallu i wneud yr un modd.

Y mae'r Catalog am £4 yn ddwyieithog ac yn werth ei gael a'i gadw nid yn unig am y lluniau godidog sydd ynddo ond am nodiadau John Ormond hefyd. Noddwyd yr Arddangosfa gan HTV a Banc Barclays. Dyma'r daith:

Amgueddfa Genedlaethol Cymru - 14 Mawrth - 9 Mai
Oriel Mostyn, Llandudno - 23 Mai - 19 Gorffennaf
Oriel Glynn Vivian, Abertawe - 8 Awst - 19 Hydref



'Ffarmwr ym Mharc Newydd' 1986 Kyffin Williams R.A.    Llun trwy ganiatad Amgueddfa Genedlaethol Cymru.


# GŴYL HEN GALAN MAI
# MAI 1 — 4 1987



Mae Gwyl Hen Galan Mai yn Amgueddfa Werin Cymru eleni sy'n ymestyn dros bedwar diwrnod gan gynnwys Gwyl Fai, yn argoeli at fod yn ddigwyddiad cyffrous yn dilyn llwyddiant yr Wyl y llynedd.

Eleni, bydd mwy na chant o weithgareddau amrywiol yn digwydd gyda chrefftwyr o bob cwr o Gymru yn arddangos eu crefft ac arddangosiadau fydd yn rhoi cyfle i ymwelwyr dreio'i llaw gyda hen chwaraeon a medrau traddodiadol Ymhlith llawer o weithgareddau newydd, bydd nifer yn ymwneud a'r amgylchedd fel rhan o ddathliadau Blwyddyn Ewropeaidd yr Amgylchedd. Mewn pabell fawr ar y Maes, trefnwyd rhaglen o adlonàant gan gynnwys Sioe Ffasiwn y Wisg Gymreig. Yn y babell hon ar brynhawn Sadwrn, Mai 2, cynhelir Cystadleuaeth Bandiau Pres gyda chydweithrediad Cymdeithas Bandiau Pres De-ddwyrain Cymru gyda deg o fandiau yn ymgeisio am y gwobrau hael a gynigir.

Bydd yr Wyl yn parhau gyda'r nos hefyd ar nos Sadwrn a nos Sul. Nos Sadwrn, Mai 2il, cynhelir Noson Werin a drefnir gan gwmni Sain gyda Dafydd Iwan, Plethyn, Mabsant, Pedwar yn y Bar, Bridgette a Jonathan a Chor Godre'r Garth, ac ar y nos Sul, Mai 3ydd, bydd Cymanfa Ganu draddodiadol. Eisoes y mae'r diddordeb yn yr Wyl eleni yn cynyddu bob dydd wrth i drefnwyr a chwmniau teithio o bob man fynegi eu hawydd i fod yn Sain Ffagan i fwynhau Gwyl Hen Galan Mai 1987.



David Rhys Edwards, y gof sydd newydd ymuno â'r Amgueddfa Werin

# BWTH RUTH



Wel helo a pha hwyl sydd? Newydd deithio o'r Felinheli i Gaerdydd ar fore Sul braf o Wanwyn - mae 'na eira ar bob mynydd a bryn yr holl ffordd i lawr, ond mae 'na argoelion o Wanwyn hefyd - toes 'na yr un cae o boptu'r ffordd heb ddefaid un ai ar fin wyna neu wedi bwrw eu hwyn. Wrth wibio heibio'r cannoedd o filltiroedd o gloddiau mae 'na Gynffonnau Ŵyn bach yn gwahodd dyn i'w torri gan mai dyna'r gwyrddni hardda i'w roi yn gwmni i'r Cennin Pedr. Mae bron yn fis ers dathlu Gŵyl Ddewi ond rwan mae'r trwmpedau melyn a'n blodyn Cenedlaethol yn dod i'w hoed eleni.

Dwi'n siwr fod pob un ohonoch chi wedi dathlu Gŵyl Ddewi yn rhywle - a gan fod Mawrth y cyntaf yn digwydd bod ar ddydd Sul mi fu'n esgus dathlu am gyfnod. Mi fum i'n swpera yn Sir Aberteifi gyda Merched y Wawr Bargod Teifi - cig oen ar y fwydlen yno a'r un modd yng Ngholeg y Drindod lle bu Steddfod lwyddiannus iawn a cyd-gystadlu'r myfyrwyr a'r Staff yn rhoi modd i fyw i mi.

Nos Sul, Mawrth y cyntaf fe fu sawl rhaglen o Neuadd Dewi Sant ar y bocs - golygfa hyfryd oedd gweld llond y lle o bobl yn mwynhau bod yn Gymreig - ond i mi brafiach lawer oedd bod yn y Neuadd ar ddiwrnod Steddfod Glantâf. Tri chwarter y neuadd yn llawn - y plant a'r athrawon yn eistedd gyda'u gilydd yn ôl eu llysoedd a rhieni a ffrindiau'r ysgol yn cael mynd a dod drwy'r dydd fel bo'n bosib. Mi ddigwyddais i daro mewn rhwng hanner dydd a dau o'r gloch y pnawn.

Fe ges i weld y corau bechgyn, cân bop Ffrengig, siarad cyhoeddus a'r Cadeirio - dyna gyfle yn fanna i gannoedd o bobl ifanc sy'n Gymry Cymraeg o'r Brifddinas droedio, perfformio, llefaru, canu, hyfforddi, colli ag ennill ar lwyfan un o Neuaddau gorau Ewrop, (yn ôl y rhai sy'n gwybod.)

Roedd y cyflwyno gan Staff yr ysgol cystal os nad gwell na safon Radio Cymru ag S4C, y beirniadu yn gyson dda a beirniadaeth o'r lenyddiaeth cystadleuaeth y Gadair gan Islwyn Jones gyfuwch a'r Genedlaethol, (a'r feirniadaeth barodd chwarter awr yn fanwl ar gerdyn tua yr un maint a phecyn sigarets) - ond yr awyrgylch a'r afiaeth yn well nag unrhyw beth mae'r W.R.U. yn gallu ei sbarduno na'i greu. Dyna i mi binacl fu nathlu i ar Ŵyl Ddewi.-

Estynwn ein cydymdeimlad llwyraf a Mrs. Sandra Rogers, Ysgol y Wern, a'r teulu ar ei phrofedigaeth ddiweddar o golli ei thad ym Mhedair Heol, Llanelli.

## LLYTHYRAU
LLYTHYRAU
LLYTHYRAU

Annwyl Gyfeillion,

CAIS AM GYMORTH

Eleni am y tro cyntaf rydym wedi cyhoeddi DYDDIADUR DESG i gadw cwmni i'r Dyddiadur Poced sydd wedi ymddangos ers rhai blynyddoedd. Yn dilyn yr ymateb brwd iddynt, bwriadwn gyhoeddi rhifynnau 1988 erbyn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Er mwyn i'r ddau Ddyddiadur fod mor gywir ag sy'n bosibl erfyniwn am eich cymorth, yn Fudiadau, Cymdeithasau, Papurau Bro ac yn y blaen. Gwnewch yn siwr fod eich sefydliad chi yn cael ei gynnwys drwy anfon y manylion perthnasol at y cyfeiriad isod cyn gynted a phosib.

Diolch ymlaen llaw i chi am ein helpu i ddarparu Dyddiaduron safonol a defnyddiol yn yr iaith Gymraeg.

Megan Mai,
Y Lolfa,
Talybont,
Ceredigion.

---

Plas Cichle,
BIWMARES.
Ynys Môn.

Annwyl Olygydd,

Ro'n i'n meddwl ella basai rhai o'ch darllenwyr, dysgwyr yr ardal yn bennaf, â diddordeb mewn menter newydd. Yma ym Mhlas Cichle rydan ni'n cynnig gwely a brecwast i ddysgwyr. Mae cyfle i ymarfer yr iaith mewn awyrgylch gartrefol a hefyd cyfle i gael hyfforddiant pellach os yw ymwelwyr yn dymuno hynny. Mae penwythnosau arbennig wedi eu trefnu yn ystod yr haf - drwy'r rhain gobeithiwn ddod a dysgwyr o'r un safon at eu gilydd, ac ym mis Medi mae dau benwythnos 'Cyflwyno'r Iaith' wedi'u trefnu i rai sy'n bwriadu mynd ati o ddifri yn yr Hydref.

Fferm rhyw filltir o dref Biwmares a'r afon Menai ydy Plas Cichle. Mae'n ardal gyda yr hyfrytaf yng Nghymru, ac yn ganolfan ddelfrydol i deithio Môn ac Eryri. Mae amrywiaeth o weithgareddau egniol yn yr ardal hefyd.

Yr hyn a obeithiwn wneud yma yw rhoi cefnogaeth a hyder i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg. Os am fwy o fanylion cysylltwch â Eirwen Roberts (ffôn 0248 - 810488).

Ga i ddymuno'n dda i'r dysgwyr yn eich ardal ac i'r Papur Bro.

Yr eiddoch yn gywir,

Eirwen Roberts.

# TAITH YN ERBYN TLODI

Annwyl Gyfeillion,

Yr ydym ni yn Taith yn Erbyn Tlodi eisiau eich cymorth wrth wneud pobl yn ymwybodol o anghenion tlodion a newynog y byd. Digwyddodd a darfu Arian Byw, Live Aid a Sport Aid ond y mae tanddatblygiad a newyn yn aros. Cymerodd miliynau o bobl ran yn y digwyddiadau hyn oherwydd eu bod eisiau gwneud rhywbeth ynghylch anghyfiawnder.

Nid yw codi arian i gynorthwyo dros dro yn ddigon. Oni newidir yn gyflym dermau masnach, cymorth a dyled sy'n wynebu glwedydd tlawd bydd dydd arall yn gweld newyn arall.

Bydd cannoedd o filoedd o bobl yn cymryd rhan mewn cyfres o deithiau cerdded cyfnewid drwy Brydain benbaladr rhwng Mai 9fed a Mehefin 6ed.

Bydd digwyddiadau a drefnir ar y ffordd yn darparu cyfle i annog A.S. i gymryd y 5 cam hwn:-

* CYNYDDU A GWELLA CYMORTH TRAMOR
* CYNORTHWYO'R NEWYNOG I DYFU RHAGOR O FWYD
* MASNACHU TEG EFO GWLEDYDD TLAWD
* CODI BAICH Y DDYLED ODDI ARNYNT
* HYRWYDDO YMDRECHION I DDIWEDDU GWRTHDRAWIADAU



Y cyhoeddiad pum cam hwn fydd y neges gyfnewid a fydd yn croesi Prydain gan gasglu miliwn o lofnodion erbyn yr amser y bydd yn cyrraedd Llundain ar Fehefin 6ed. Yr ydym yn gofyn i'n Llywodraeth gario'r neges ymlaen i'r Cyfarfod Economaidd rhwngwladol yn Fenis ar Fehefin 8fed.

Yng Nghymru mae taith wedi ei threfnu Ar draws gwlad o Borthaethwy i gysylltu a'r brif daith yn Abertawe. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bobl Cymru gefnogi amcanion y daith a dangos eu pryder ynghylch newyn yn y byd.

BETH ALLECH CHI EI WNEUD

Nid ydym yn disgwyl i neb gerYr holl ffordd. Yr hyn sydd ei angen yw cefnogaeth cyn gymaint o bobl ag sydd bosibl i gerdded mor bell ag y gallant (boed hynny'n 20 milltir neu'n 100 llath) neu i sefyll ar hyd llwybr y daith i groesawu'r daith yn eu bro. Y mae'n bwysig cael cyn gymaint â phosibl o bobl i ARWYDDO'R DATGANIAD.

Y mae'n bwysig cael grŵp contact ymhob man-aros i helpu drefnu cyfarfod cyhoeddus a threfnu cefnogaeth gan swyddogion lleol (cynghorwyr, A.S., arweinyddion crefyddol a.y.b.) bwyd a chysgod ar gyfer cerddedwyr hirdaith. Os oes diddordeb gennych mewn bod yn gysylltyd neu gysylltu â threfnwyr lleol yn eich ardal chi, neu gael pobl i arwyddo'r datganiad neu am gael rhagor o wybodaeth, os gwelwch yn dda, cysylltwch cyn gynted ag sy'n bosibl, ag un ohonom.

Yn gywir,

Eluned Nickson.

CEFNOGWYR

Action Aid, CAFOD, Cymorth Cristnogol, CIIR, Cymorth i'r Henoed, Oxfam, Save the Children Fund, SCAWD, SCIAF, SEAD, Tear Fund, Traidcraft, Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig, Voluntary Service Overseas, War on Want, World Development Movement.

LLWYBR Y DAITH

| | | |
|---|---|---|
| Sul | Mai 10 | Porthaethwy ->Bangor -->Caernarfon |
| Llun | Mai 11 | ->Penygroes -->Porthmadog |
| Mawrth | Mai 12 | ->Blaenau Ffestiniog |
| Mercher | Mai 13 | ->Dolgellau |
| Iau | Mai 14 | ->Machynlleth |
| Gwener | Mai 15 | ->Aberystwyth |
| Sadwrn | Mai 16 | Gorffwys |
| Sul | Mai 17 | ->Aberaeron |
| Llun | Mai 18 | ->Llanbedr Pont Steffan |
| Mawrth | Mai 19 | ->Llandysul |
| Mercher | Mai 20 | ->Caerfyrddin |
| Iau | Mai 21 | ->Porth Tywyn neu Llanelli |
| Gwener | Mai 22 | ->Abertawe |

# EISTEDDFOD CASNEWYDD

Y traddodiad yng Nghasnewydd ers blynyddoedd lawer yw dathlu Gŵyl Ddewi gyda chinio mewn gwesty ac oedfa yn y Gadeirlan. Nid oedd eleni'n eithriad, gyda y Dr. Emrys Evans, Dinas Powys, yn ŵr gwadd yng nghinio y Gymdeithas Gymraeg, a'r Parchedig Saunders Davies, Eglwys Dewi Sant Caerdydd, yn bregethwr gwadd yn y gwasanaeth. Deuddyn da eu gair, a chafwyd cyfraniadau coeth o'u genau.

EISTEDDFOD CASNEWYDD 1988

Ond torrwyd tir newydd y flwyddyn hon gyda bore o ddawnsio a chanu yn yr awyr agored ar sgwar eang John Frost yng nghanol y dre ar Sadwrn, Chwefror 28. I Emrys Roberts, Cadeirydd Pwyllgor Cyhoeddusrwydd Eisteddfod Casnewydd mae'r clod yn bennaf am y syniad a'r paratoi, ond fe fyddai'r cyntaf i gydnabod y stôr o gymorth a chefnogaeth gafwyd gan nifer helaeth o wirfoddolwyr. Gwerinwyr Gwent ofalodd am y dawnsio a phlant unedau Cymraeg o High Cross a St. Dials fu'n canu.

Digwyddodd fod yn fore heulog braf, a buan ymatebodd siopwyr y dre i naws hwyl a miri ffair. Cystal yr ymateb nes i Meic Hughes, arweinydd Gwerinwyr Gwent fentro cynnal twmpath a gwelwyd pobl yn dod allan o'r dorf i uno yn y ddawns. I mi, uchafbwynt y bore oedd gweld dros gant o blant yn rhoi perfformiad afieithus o Ddawns Llangrannog yn y sgwar.

Cafwyd dwyawr a mwy o ddifyrrwch gwbwl Gymreig, ac yn dawel bach dosbarthwyd cannoedd o ddogfennau hysbysebu. Roedd yno ddigon o weithwyr i allu aros a sgwrsio gyda'r sawl a ddangosai ddiddordeb a chywreinrwydd. Roedd yn hanfodol i gadw golwg ar dymheredd yr ymateb yng nghanol tre Casnewydd, ac allan o dros fil o gysylltiadau dim ond naw ymatebodd yn anffafriol.

Bellach, rwy'n gwbwl sicr mai esgus ac nid rheswm yw'r ddadl ar egwyddor y rheol Gymraeg. Mae Emrys Roberts wedi dyfeisio ateb treiddgar i'r rhai sy'n ceisio dadlau dros gynnwys Saesneg yng ngweithgareddau'r Ŵyl. Ateb Emrys i'r siniciaid yw dadlau na ellir dewis tîm rygbi wir genedlaethol hyd nes y cynhwysir chwaraewyr peldroed yn y tîm! Rwy'n siwr fod yna ateb rhesymegol i hyn, ond does neb wedi meddwl amdano hyd yn hyn.

Lle bynnag bo dau neu dri yn ymgynnull yn enw Eisteddfod Casnewydd, mae bois y Pwyllgor Cyllid yn siwr o ymddangos o rywle! Dyna ddigwyddodd ar y Sadwrn yma er i ni bwysleisio mae cyhoeddusrwydd oedd y nod - nid codi arian. Serch hynny fe ddaeth £115 mewn cyfraniadau i gyllid yr Eisteddfod ac aeth John Jones Maesaleg adre am ei ginio yn ŵr llawen.

Mae cyhoeddiad newydd wedi ymddangos yn sgil yr Eisteddfod, sef papur dwy-ieithog 'Cas-Newydd/Newport News'. Yn bennaf y bwriad yw cadw rhyw fath o gysylltiad rhwng y 300 o bobl sy'n gwasanaethu'r Is-bwyllgorau. Disgwylir iddo ymddangos bob tri mis, ac os yw'r rhifyn cyntaf yn enghraifft o'r safon a ddisgwylir bob tro, fe fydd 'Cas-Newydd' yn ennill ei blwyf. Tybed a welir papur bro Casnewydd yn datblygu o'r cyhoeddiad yma? Gwylied y Dinesydd!


## HWYL A FFLAG

yn cyflwyno

NEWID AELWYD

SIOE GERDDOROL
Awdur: Gruffudd Jones
Cerddoriaeth: Catrin Edwards
Cyfarwyddwr: Wyn Bowen Harries

THEATR SHERMAN, CAERDYDD
Mawrth, Mai 5 a Mercher, Mai 6
1.15pm £3.00 (dim gostyngiadau)
7.30pm £5.00, £4.00 (gostyngiad o £1.00 i fyfyrwyr a phensiynwyr)

Tocynnau: Caerdydd 30451/2

Caset o ganeuon y sioe gan gwmni SAIN (C999A)
Copi am ddim i drefnwyr bwsiau a phartion
Am fanylion cysylltwch â Hwyl a Fflag, Y Tabernacl, Heol y Garth, Bangor
(0248)351140.


## CYFNEWID ARTISTIAID Cymru ac Iwerddon

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Celfyddydau Iwerddon/ An Chomhairle Ealaion ar fin dechrau ail ran cyfnewid rhwng Cymru ac Iwerddon. Yr oedd y rhan gyntaf, a sefydlwyd y llynedd i roi i artistiaid y cyfle i ddatblygu cysylltiadau diwylliannol rhwng y ddwy wlad, yn golygu bod y beintwraig o Ddulyn, Gwen O'Dowd, wedi ymweld â Chymru am dri mis yn ystod yr haf.

Er mai'r ddau Gyngor Celfyddydau sy'n talu am y Cyfnewid ac yn ei drefnu, Canolfan y Sgubor, Aberystwyth a Chanolfan Gelfyddydau Triskel, Cork, fydd yn gwahodd. Gobeithir y bydd y bartneriaeth rhwng y ddwy Ganolfan Gelfyddydau yn parhau i annog a darparu fframwaith er mwyn i syniadau ac ymdrechion artistiaid gael llifo'n rhwydd ar draws Môr Iwerddon.

Gwahoddir artistiaid nawr i weithio am dri mis yn Cork yn stiwdios Cork Artists Collective.

Ystyrir ceisiadau oddi wrth amrywiaeth eang o artistiaid yn gweithio mewn gwahanol gyfryngau gan gynnwys peintio, cerflunio, gwneud printiau, ffotograffiaeth, gwaith gosod a gwaith amgylchedd. Dylai fod gan ymgeiswyr ddiddordeb gwirioneddol mewn ymchwilio i'r diwylliant Gwyddelig a'r cysylltiadau rhwng y ddwy wlad, a dylent fod yn barod i addysgu a chyfathrebu'n eang am gelfyddyd a diwylliant Cymru'n gyffredinol. Dylai artistiaid fod yn byw yng Nghymru am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ( o leiaf 9 mis y flwyddyn), a bod a defnydd eisoes wedi ei gofrestru yn Llyfrgell Sleidiau a Gwybodaeth Cyngor Celfyddydau Cymru.
Disgwylir i'r artist a ddewisir weithio am dri mis yn olynol yn ystod y cyfnod Gorffennaf i Hydref. Y tâl yw 3,2000 punt Wyddelig, i gynnwys teithio, cynhaliaeth, llety, defnyddiau a chostau eraill.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw Dydd Gwener 3 Ebrill 1987.

Gellir cael rhagor o fanylion a ffurflenni cais oddi wrth:-

Alison R T Scott,
Swyddog Artistiaid a Chomisiynau,
Cyngor Celfyddydau Cymru,
9, Stryd yr Amgueddfa,
CAERDYDD.
CF1 3NX.

Tel: 394711.


Dymuna'r 'Dinesydd' gydnabod gyda diolch y grant tuag at gostau cyhoeddi a dderbyniwyd o goffrau'r Swyddfa Gymreig drwy law Cymdeithas Celfyddydau De-ddwyrain Cymru.

# LLONGYFARCH



Llongyfarchiadau i Geraint Talfan Davies ar ei benodiad yn Gyfarwyddwr Rhaglenni Tyne Tees yn Newcastle Upon Tees. Chwith fydd colli'r teulu hwn o Gaerdydd. Dymunwn bopeth o'r gorau iddynt - ond brysiwch yn ol i Gymru. Yn dilyn penodiad Geraint rhaid hefyd longyfarch Emyr Daniel ar ei ddyrchafiad i swydd Rheolwr Cynorthwyol Rhaglenni HTV gyda chyfrifoldebau am raglenni newyddion a materion cyfoes.


**MUDIAD YSGOLION MEITHRIN**

Yn eisiau

**CLERC/TEIPYDD**

Gallu i gadw Cyfrifon yn fantais.

Anfoner am fanylion pellach a ffurflen gais at:

Y Cyfarwyddwr,
Mudiad Ysgolion Meithrin,
10, Park Grove,
CAERDYDD. CF1 3BN
Tel. 0222-36205

Dyddiad Cau: Ebrill 24ain, 1987


---

Llongyfarchiadau i Sian ac Alan Young ar enedigaeth Nia Gwenllian. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

---

Ganwyd mab i Gwenlyn ac Ann Parry - Wiliam Gruffydd - brawd bach i Marged.

---

Llongyfarchiadau i Alison, merch y Parch. a Mrs. Haydn Thomas, Llandâf a John Keys o Londonderry, Gogledd Iwerddon, ar eu dyweddiad. Ar ôl graddio yng Ngholeg Abertawe bu Alison yn gwneud gwaith ymchwil cyn derbyn Swydd gyda Chymdeithas Gartrefi yng Nghaerdydd. Peiriannydd Sifil yw John gyda ei olygon ar hyn o bryd ar waith gyda'r twnel arfaethedig rhwng Lloegr a Ffrainc. Dymuniadau gorau iddyn nhw ac hefyd i Doreen a Haydn ar ddathlu penblwydd priodas arbennig iawn.

# SÊR Y DINESYDD

EIRY PALFREY

ARIES: Bydd hwn yn fis arddercHog i chi - cyfle i ehangu'ch gorwelion ymhob ffordd. Gofalwch na chewch eich twyllo yn y gwaith ar y 4ydd. Dylai hwn fod yn fis lwcus iawn, gwnewch yn fawr ohono.

TAURUS: Fe allai hwn fod yn fis rhamantus iawn, ond i chi ymlacio a mwynhau. Daw llawer un i ofyn cymwynas i chi, ac mi fyddwch chithau ond yn rhy hapus i helpu.

GEMINI: Bydd digon o ynni gennych y mis Ebrill hwn; mi fydd hi'n anodd cadw i fyny a chi! Defnyddiwch yr ynni i gario un maen ar y tro i'r wal - peidiwch a'i wasgaru'n ormodol.

CANCER: Bydd y cartre'n bwysig iawn i chi nawr. Efallai byddwch yn symud, neu'n harddu neu'n ehangu eich tŷ presennol. Os oes cweryl yn y teulu, chi fydd yn gyfrifol am y cymodi.

LEO: Cewch gyfle'r mis hwn i lwyddo, yn enwedig yn y gwaith, ond i chi wneud eich gwaith cartref. Thâl hi ddim i chi fod yn ddiog. Mae'r elfen dramor yn gryf yn eich siart y mis hwn.

VIRGO: Mae 'na reswm pam nad y mae pob peth fel y dylai fod. Ceisiwch ddadansoddi beth sydd wrth wraidd y broblem, a'i ddatrys. Daw lwc tua'r 19eg. Canolbwyntiwch ar eich gyrfa.

LIBRA: Os oes perthynas rhyngoch a rhywun wedi suro rhywfaint dyma'r mis i ddod a phethau i'r pen. Daw'r cyfan yn gliriach ar ôl y 22ain - pan fydd cyfnod rhamantus yn dechrau.

SCORPIO: Mae llawer o newidiadau yn yr arfaeth. Ar ôl y 5ed efallai bydd rhywun yn dylanwadu arnoch mewn rhyw ffordd. Ceisiwch beidio a chweryla dros arian - a pheidiwch da chi a mynd dros eich dyfnder yn ariannol.


SAGITTARIUS: Mae'r sêr i gyd ar eich ochr y mis hwn - fe allech gyflawni llawer ond i chi ganolbwyntio, a gweithio'n galed. Cymerwch ofal o'ch arian; nid dyma'r amser i'w wario fel dŵr - nag i gymryd siawns.

CAPRICORN: Cymerwch rybudd, mae rhywun a'u bryd ar eich twyllo tua'r 4ydd - ond daw popeth yn iawn erbyn yr 11eg. Fe allai rhyw awdurdod geisio eich baglu yn gyhoeddus, ond bydd diwedd y mis yn rhamantus iawn.

AQUARIUS: Mis creadigol, a chystadleuol iawn fydd hwn. Felly dangoswch eich talentau i'r byd! Gellwch gynllunio ar gyfer y dyfodol ar ôl yr 11eg pan fyddwch yn llawn syniadau, ond rhaid gweithio'n galed hefyd!

PISCES: Nid dyma'r mis gorau i chi - ond ceisiwch beidio a boddi'ch gofidiau na gorwario i godi'ch calon - dim ond gwaethygu wnaiff pethau felly. Daw haul ar fryn erbyn y Pasg, pan fydd y darnau'n syrthio i'w lle unwaith eto.


**Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).**



Yn Eisiau - Merch i ofalu am faban chwe mis oed, naill ai fel gofal-wraig bob dydd neu fel 'Nanny'. Mae ei hangen ar frys ac felly, cysylltwch, os gwelwch yn dda cyn gynted a phosibl â BARRI 721236.

**celtic asset management ltd.**


RHEOLWYR BUDDSOSDIADAU AC ASEDAU PERSONOL
ARBENIGWYR MEWN CRONFEYDD BUDDSODDI

PORTFFOLIADAU BUDDSODDI DAN REOLAETH
NAILL AI CYFEIRIEDIG NEU GORDDEWISOL

AM FANYLION PELLACH CYSYLLTER Â:
DAFYDD HAMPSON-JONES
CYFARWYDDWR

78 Heol yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF4 3LX
Ffôn: 394021
Delwyr trwyddedig mewn gwarannau.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 70



Ar Draws:

1. Neidiai'r B.A. yn afreolus pan oedd yn cloriannu (10)
6. Mae'n hen bryd i ddeall hwn (4)
9. Hanfod ein bod mewn cywair agored reit ynghanol y cymod (10)
10. Banllef! (4)
12. Cynghreiriaid gwleidyddol (12)
15. Enghreifftiau y gellid eu dilyn (9)
17. Gwdihw wedi colli anadl a chymar (5)
18. A oes gyno fo fodd i godi? (5)
19. Natur y boreddydd pan ddaw (yn ol emyn Dyfed) (9)
20. Trefnu dysg bydol er 'i danio ag awen oddiuchod (12)
24. Ffordd hen o gyfathrebu (4)
25. Ewropeaidd, yn amlach na heb (10)
26. Chwi a mi (4)
27. Di-feth (10)

I Lawr:

1. Pren (4)
2. Mrs. Chilton ẏ bosib (4)
3. Pobl y cyrff cyhoeddus (12)
4. Metel (5)
5. Gwyntoedd y Gogledd (9)
7. Man uchelwyr (10)
8. Llacio ymdrech (5,5)
13. Setiau, nid seti (10)
14. Deuddeg o'r ysgol? (10)
16. Gwaith caled,cyson (5,4)
22. "---- y Llyfrau Glesion" (4)
23. Dos ar dy lin (4)

Cystadleuaeth Rhif 68:
Cyhoeddwyd y datrysiad yn rhifyn Mawrth ond oherwydd amryfusedd, gadawyd allan ganlyniad ẏ gystadleuaeth. Enw Mr. Iwan Jones, 38 Thornhill Road, Llanishen, a ddaeth o'r hat a gobeithiwn ei fod wedi derbyn y tocyn llyfr erbyn hyn. Daeth atebion cywir hefyd oddi wrth: Rhian James, Yr Eglwys Newydd; J.L., Ger y Llyn; John Hughes, Llanishen; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwys Newydd; Mrs. S.M. Tibbot, Pentyrch; Margaret Jones, Cyncoed; Jayne Rees, Pontypridd; B.H., Cyncoed; M.E. Davies, Llandaf; B.T., Cyncoed; Dilys Gunston, Heol Ty Gwyn; ac A.R.R., Abertawe.

Datrysiad Rhif 69
Ar draws:
1. CAMPAU; 4. CYLCHOG;
9. Y PRIFFYRDD A'R CAEAU;
10. GWEISG; 11. YN Y CANOL;
12. ADFEILIO; 14. OEDRAN;
15. ECOLEG; 18. CENHINEN;
21. ANERCHIAD; 22. WIBREDD;
24. DAW I BEN EI DENNYN;
25. ASTRUS; 26. GRADDAU

I Lawr:
1. CIPIWYD; 2. MEINI;
3. ADDYSGOL; 5. YMRWYMO;
6. CHWARAEDAI; 7. GWADDOTA;
8. ODDIYNO; 13. EGLURAIST;
16. CINIAWA; 17. GWIREDDU;
18. CADWER; 19. NEWIDIR;
20. EFELYCHU; 23. BONEDD

Cystadleuaeth Rhif 69
Oherwydd yr amryfusedd uchod ni chẏnigiwyd gwobr am Groesair 69 ac ni roddwyd dyddiad cau. Ond fe dderbyniwyd atebion cywir oddi wrth B.T.,Cyncoed; J.L., Ger y Llyn; a Sian, Cyncoed.

Cystadleuaeth Rhif 70
Cynigir gwobr o £5 eto. Enw a chyfeiriad ar ymyl y Croesair a'i anfon i gyrraedd Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed erbyn Ebrill 18fed, os gwelwch yn dda.

# PENARTH A DINAS POWIS


Cymdeithas Gymraeg Dinas Powis

Cafwyd noson i'w gofio yng Nghlwb B.P. Y Sili ar Fawrth 2. Roedd ein gwestai Dic Jones - y Prifardd, neb llai! yn ei hwyliau gorau yn annerch aelodau'r Gymdeithas. Cafwyd pryd o fwyd blasus, anerchiad werthchweil ac adloniant o'r radd flaenaf gyda Janet a Glenda a Catrin wrth y delyn. Edryd Lloyd, ein Cadeirydd hynaws oedd wrth y llyw - wrth ei fodd hefyd gan fod Dic Jones ac Edryd yn gyfeillion o'r un ardal - Cardis unwaith eto! Diolchwyd i'r Pwyllgor am drefnu noson arbennig gan Y Llywydd Mr. Eifion Wyn Hopwood.

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. John Williams ar enedigaeth eu mab bychan Lleu Peredur. Pob bendith yn y dyfodol.

Beth am droi i mewn i Fethel, Penarth i weld y Capel ar ei newydd wedd? Calonogol i'r Parch. Meurwyn Williams, y Gweinidog ac i'r holl aelodau oedd gweld a chydnabod y llafur a roddwyd o'u gwirfodd gan ddynion y Capel dan arweinyddiaeth gadarn Rowland Owen. Fe wnaeth y gwragedd hefyd gyfraniad sylweddol. Ymunwch â'r oedfa unrhyw Fore neu Nos Sul - cewch groeso twymgalon a mwy na hynny hyd yn oed cewch Fendith am yr wythnos â ddaw.

Cynhaliwyd Cyfarfod Cangen Caerdydd o CEFN yng Nghlwb Ifor Bach fis Chwefror. Mae'r Gymdeithas yn ymgyrchu i gael cownter Cymraeg ym mhrif fanciau Caerdydd. Hyd yma cafwyd ymateb ffafriol - ag eithrio gan Fanc y National Westminster. Bydd pwyso eto ar y Banc yma i newid ei feddwl. Mae cyfarfod nesaf CEFN yng Nghlwb Ifor Bach ar yr 8fed o Ebrill. Croeso i bawb sy'n cefnogi amcanion y Gymdeithas.



Ein dymuniadau gorau i Dylan, mab Moelwyn a Delyth Jones, Llandâf, a Fiona, merch yr Athro a Mrs. Embery, Llysfaen ar eu dyweddiad. Mae Dylan yn awr yn aelod o Heddlu De Cymru ar ôl graddio o Goleg Abertawe a Fiona yn dilyn ei gyrfa fel nyrs yn yr Infirmary. Llongyfarchiadau iddyn nhw. Ac, adferiad buan i Delyth ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

Amgueddfa Werin Cymru




# GŴYL HEN GALAN MAI

## Gŵyl Genedlaethol o grefftau traddodiadol, chwaraeon ac adloniant

## MAI 1, 2, 3, 4, 1987

gan gynnwys Gŵyl Fai 10·00 ~ 5·00 bob dydd

### MWY NA 100 O WEITHGAREDDAU

**Crefftau, medrau, arddangosiadau, adloniant, diddordebau arbennig**

ADLONIANT GYDA'R NOS

Nos Sadwrn, Mai 2, 1987, 8.00 o'r gloch

Noson Werin yng nghwmni **Sain** gyda Dafydd Iwan, Plethyn, Mabsant, Pedwar yn y bar, Bridgette a Jonathan a Chôr Godre'r Garth

Nos Sul, Mai 3, 1987, 8.00 o'r gloch

Cymanfa Ganu draddodiadol

Manylion pellach :

Yr Adran Farchnata, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB
Ffôn (0222) 569441

Diwrnod i'r brenin ... a'r teulu
Gŵyl na ddylech mo'i cholli

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU